Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Trwy e-bost - DSME@gov.wales

12 Chwefror 2019

Cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd

Annwyl Weinidog dros Addysg

Fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod cymwysterau yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru ac yn ennyn hyder y cyhoedd.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn rhoi'r cyfle i ni ystyried diben, cynllun ac argaeledd cymwysterau. Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw diffinio cyd-destun cenedlaethol y polisi y cyflwynir y cwricwlwm a'r cymwysterau ynddo, rydym yn disgwyl y bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â dyluniad a datblygiad cymwysterau newydd yn rhan allweddol o'n gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn ystod ein cyfarfod â chi cyn y Nadolig, gwnaethom drafod ein cynlluniau i ystyried y goblygiadau i gymwysterau yn fras. Yn y llythyr hwn, rydym yn rhoi mwy o fanylion am sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r gwaith pwysig hwn.

Rydym wedi cydweithio â'ch swyddogion ac eraill ar draws y gyfundrefn addysg i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd ers ei ddechreuad. Wrth i'r cwricwlwm drafft gael ei lunio, rydym wedi bod yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod cymwysterau yn parhau i ddiwallu anghenion pobl ifanc 16 oed unwaith y caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno. Bydd cyflawni nodau Cenhadaeth ein Cenedl yn

golygu y bydd angen sicrhau bod cymwysterau newydd ar gael i'w haddysgu o fis Medi 2025. Bydd hefyd angen i ni ystyried p'un a ddylid parhau i gyflwyno cymwysterau presennol yn ogystal â chymwysterau newydd.

Bydd adnewyddu cymwysterau i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed yn ein galluogi i ddatblygu cynnwys a dulliau asesu sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac i helpu myfyrwyr i gyflawni dibenion craidd y cwricwlwm. Bydd sicrhau bod y cymwysterau yn cyd-fynd yn agos â'r cwricwlwm newydd yn hanfodol ar gyfer ei lwyddiant, fel arall mae perygl y gallai danseilio nodau'r diwygiadau addysg ehangach.

Rydym am i fyfyrwyr yng Nghymru gael dewis priodol a chydlynol o gymwysterau diddorol a dibynadwy, y gall ysgolion eu cyfuno a'u darparu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Nodwedd hanfodol o'n dull gweithredu bydd sicrhau rôl ganolog i athrawon, myfyrwyr a'r sector addysg ehangach yn y gwaith o lunio cymwysterau'r dyfodol. Gan gydnabod rôl bwysig cymwysterau er mwyn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg bellach a chyflogaeth, byddwn hefyd yn gofyn am fewnbwn gan gyflogwyr, colegau a phrifysgolion yng Nghymru a thu hwnt.

Cyn i ni allu pennu'r gofynion o ran dylunio'r cymwysterau newydd, mae'n bwysig ystyried pam bod eu hangen a chytuno ar y dibenion y mae angen iddynt eu cyflawni. Drwy ymgysylltu ag eraill, hoffem gytuno ar ddibenion y cymwysterau newydd a datblygu'r prif egwyddorion a fydd yn pennu natur cymwysterau'r dyfodol, gan gynnwys yr amrywiaeth o gymwysterau a phynciau y dylid eu cynnig i fyfyrwyr 16 oed yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau sail gadarn ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu cynigion ar gyfer cymwysterau'r dyfodol, bydd angen eglurder ynghylch agweddau allweddol o bolisi addysg. Rhwng nawr a'r haf, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'ch swyddogion i fynd i'r afael â'r cwestiynau polisi allweddol canlynol:

- p'un a fydd disgwyl i ysgolion gynnig amrywiaeth ofynnol o gymwysterau i fyfyrwyr;
- p'un a fydd disgwyl neu hawl i fyfyrwyr astudio cymhwyster o bob maes dysgu a phrofiad;
- sut y bydd cymwysterau yn rhan o'r trefniadau atebolrwydd newydd ar lefel genedlaethol, ranbarthol, sirol ac ysgol;
- yn benodol, p'un a fydd cymwysterau wedi'u cynnwys mewn unrhyw ddangosyddion o fesurau perfformiad ysgolion a sut.

Bydd angen i ni ystyried y teitl a roddir i gymwysterau newydd fel rhan o'n gwaith. Yn ein barn ni, mae'r teitl TGAU yn un hyblyg dros ben gallai gynnwys amrywiaeth helaeth o wahanol nodweddion dylunio cymwysterau i gyd-fynd â'r cwricwlwm

newydd. Mae dadl gref dros gadw brand y mae'r cyhoedd, cyflogwyr a darparwyr addysg ledled y DU ac yn rhyngwladol yn gyfarwydd ag ef ac a ystyrir yn ddibynadwy. Byddwn felly yn cwblhau'r gwaith ar y rhagdybiaeth y bydd cymwysterau newydd yn parhau i ddefnyddio'r brand TGAU, gan aros yn agored i ystyried opsiynau amgen.

Rydym eisoes yn ystyried ffyrdd o wella dyluniad Bagloriaeth Cymru, ac yn disgwyl gweld Tystysgrif Her Sgiliau wedi'i hailwampio i gefnogi'r cwricwlwm newydd, yn ogystal ag unrhyw gymwysterau newydd eraill.

Gan fod y cwricwlwm newydd hwn wedi'i anelu at ddisgyblion rhwng 3 ac 16 oed, nid ydym yn disgwyl iddo effeithio'n uniongyrchol ar gymwysterau UG a Safon Uwch. Er hyn, byddwn yn nodi ac yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl i gymwysterau ôl-16 wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Drwy ein gweithgarwch ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori helaeth dros y misoedd nesaf, rydym yn bwriadu datblygu a phrofi cyfres o egwyddorion arfaethedig aer mwyn llywio'r cymwysterau a gaiff eu hastudio yn y dyfodol gan fyfyrwyr 16 oed sydd wedi dilyn y cwricwlwm newydd. Rydym yn disgwyl gallu rhoi cyngor manwl i chi erbyn diwedd 2019, a dylai hyn olygu y gellir cadarnhau penderfyniad clir ar bolisi erbyn dechrau 2020. Bydd hyn yn cyd-fynd â chyhoeddi'r cwricwlwm gorffenedig, yn rhoi'r eglurder sydd ei angen ar ysgolion i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd, ac yn caniatáu i'r gwaith cynllunio manwl ar gymwysterau unigol fynd rhagddo.

Gwyddom pa mor bwysig yw sicrhau bod y cymwysterau newydd yn barod ar gyfer ysgolion mewn da bryd i roi digon o amser iddynt gynllunio a pharatoi'n effeithiol ar eu cyfer, i ddarparu hyfforddiant broffesiynol i athrawon, ac i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog o ansawdd uchel. Os gallwn gytuno ar gyd-destun polisi a gweledigaeth glir ar gyfer cymwysterau'r dyfodol erbyn dechrau 2020, rydym yn hyderus y bydd y cymwysterau newydd yn barod i ysgolion mewn da bryd i ddiwallu eu hanghenion.

Rydym eisoes wedi dechrau trafod syniadau cynnar â swyddogion Llywodraeth Cymru, ysgolion arloesi, cyrff dyfarnu, arbenigwyr asesu ac Estyn. Mae nifer o brosiectau ymchwil i gasglu barn athrawon a myfyrwyr ar gymwysterau presennol hefyd yn mynd rhagddynt. Rhwng nawr a'r haf, byddwn yn ehangu ac yn dwysáu ein gweithgarwch ymgysylltu gydag amrywiaeth gynyddol o randdeiliaid er mwyn helpu i fireinio ein syniadau wrth baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn nhymor yr hydref.

Bydd cyflawni'r raglen waith lawn i oruchwylio trefniadau dylunio, datblygu, cymeradwyo a chyflwyno cymwysterau newydd yn gofyn am fwy o arian. Rydym

eisoes wedi trafod y goblygiadau ariannol manwl i'r gwaith hwn dros y pum mlynedd nesaf â'ch swyddogion.

Gobeithio bod y llythyr hwn yn helpu i amlinellu'r dull cydweithredol y byddwn yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r maes gwaith pwysig hwn. Edrychwn ymlaen at gydweithio â'ch swyddogion i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer cymwysterau yng Nghymru a fydd yn cefnogi nodau ac amcanion y cwricwlwm newydd ac yn paratoi pobl ifanc ar gyfer dyfodol llwyddiannus.

Yn gywir



Ann Evans
Cadeirydd
Cymwysterau Cymru

Philip Blaker
Prif Weithredwr
Cymwysterau Cymru

cc
Steve Davies, Llywodraeth Cymru
Rebecca Olney, Llywodraeth Cymru